
# CADW PELLTER CYMDEITHASOL




Ffynhonnell: [Google COVID-19 Community Mobility Reports]
Data ar 21/07/20

# DANFON PARSELI BWYD

**Archebion parseli bwyd a wnaed gyda chyflenwyr:**

- **13,480** hyd at 25 Gorffennaf


**Nifer y danfoniadau y ceisiwyd eu gwneud:**

- **174,277** hyd at 24 Gorffennaf
- **99%** wedi'u rhoi i breswylydd neu eu gadael ar garreg y drws
- **18,601** ohonynt yn ddanfoniadau cyntaf llwyddiannus*

* uwch na'r cyfanswm archebion mwyaf diweddar am fod rhai pobl wedi gofyn i ganslo'r danfoniadau ar ôl derbyn un neu fwy o barseli bwyd

[Cefndir pellach ar barseli bwyd i'r rhai sy'n agored iawn i niwed]

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 24/07/20




# Y GRONFA CYMORTH DEWISOL

Rhwng 18 Mawrth a 23 Gorffennaf:

## Gwnaed **45,359** o Daliadau Cymorth mewn Argyfwng yn ymwneud â COVID-19, gwerth cyfanswm o **£2,806,590**

Dechreuwyd cofnodi ar 18 Mawrth. Mae'r rhesymau cysylltiedig â COVID-19 y mae ymgeiswyr yn eu rhoi yn cynnwys: Gorfod rhoi'r gorau i weithio neu leihau gwaith; Oedi o ran hawlio budd-dal; Costau ynni/bwyd uwch (teulu gartref)

Yn dilyn cyhoeddiad 1 Mai o fwy o gyllid, bydd ceisiadau'n cael eu trin â mwy o ddisgresiwn a hyblygrwydd, wrth ddelio â hawliadau caledi COVID-19
[Cefndir pellach i'r CCD]




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru
Data ar 23/07/20


# CYMORTH I FUSNESAU

Mae awdurdodau lleol wedi prosesu **63.2 mil** dyfarniad gwerth cyfanswm o **£756.8m** ar gyfer grant ardrethi busnes Covid-19.

Symudodd pob tîm i ymateb i'r galw, gyd **Banc Datblygu Cymru (DBW)** a'r benthyciadau cyntaf yn cael eu cymeradwyo cyn pen tridiau o lansiad ei gronfa Covid. Mae wedi dyrannu bron **i £100 miliwn i fwy na 1,200 o fusnesau**, gan ddarparu achubiaeth hanfodol sydd wedi diogelu miloedd o swyddi.

Yn ei hail gymal hyd at 17 Gorffennaf mae'r Gronfa Cadernid Economaidd wedi derbyn **6,660** cais gwerth cyfanswm o **£90.8m.** Ar 17 Gorffennaf roedd cronfa Micro y GCE wedi derbyn cyfanswm o **5,968** cais gyda **4,483** cynnig wedi eu gwneud, gwerth cyfanswm o **£44.1m**. Ar 15 Gorffennaf, roedd **138** cais gan fusnesau bach a chanolig wedi derbyn cynigion gwerth cyfanswm o **£4.2m**. Ar 17 Gorffennaf, derbyniwyd **14** cais Mawr gwerth cyfanswm o **£3.8m.**

Rhagor o gefndir ar Cymorth i Fusnesau.




Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Data ar ardrethi busnes fel yr oedd ar 24/07/20
Data Banc Datblygu Cymru fel yr oedd ar 09/07/20
Noder: Data ERF ar 15/07/20 & 17/07/20

# CRONFA YMATEB COVID-19 Y TRYDYDD SECTOR

**Cronfa Cadernid y Trydydd Sector**

Yn darparu cymorth ariannol uniongyrchol i sefydliadau yn y trydydd sector sydd angen help i ymdopi â'r argyfwng hwn er mwyn talu eu biliau a lliniaru problemau llif arian.

- Mae **72 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£2.96 M wedi'i dalu** drwy gronfa cadernid y trydydd sector.

**Cronfa Argyfwng Gwasanaethau Gwirfoddol**

Yn cefnogi sefydliadau'r trydydd sector yn y gymuned sy'n cydgysylltu'r ymateb yr ydym wedi'i weld ar draws Cymru i'r cais am wirfoddolwyr, gan eu helpu i dalu treuliau personol eu gwirfoddolwyr.

- Mae **141 o geisiadau** wedi'u cymeradwyo a **£6.34 M wedi'i dalu** drwy gronfa argyfwng y gwasanaethau gwirfoddol.

Rhagor o gefndir i Gronfa Ymateb Covid-19 y Trydydd Sector

Ffynhonnell: Gwirfoddoli Cymru
Data ar 24/07/20